STATUTORY INSTRUMENTS

1968 No. 1542

WELSH LANGUAGE

The Welsh Sunday Polls (Welsh Forms) (No. 2) Order 1968

Made - - -	*26th September* 1968
Laid before Parliament	*4th October* 1968
Coming into Operation	*7th October* 1968

In pursuance of the powers conferred on me by section 2(1) of the Welsh Language Act 1967(**a**), I hereby make the following Order :—

1. Each form set out in the Schedule to this Order is hereby prescribed as the Welsh version which may be used in place of the corresponding form specified in the English language at the head of the Welsh version, being a form set out in Schedule 8 to the Licensing Act 1964(**b**).

2. This Order may be cited as the Welsh Sunday Polls (Welsh Forms) (No. 2) Order 1968 and shall come into operation on 7th October 1968.

James Callaghan,

One of Her Majesty's Principal Secretaries of State.

Home Office,
Whitehall.

26th September 1968.

SCHEDULE

WELSH VERSION OF FORM B, THE FORM OF, AND DIRECTIONS FOR PRINTING, BALLOT PAPER

B. *Ffurflen, a chyfarwyddiadau ar gyfer argraffu papur pleidleisio*

(a) *Tu blaen y papur pleidleisio*

A ydych chwi tros neu yn erbyn agor adeiladau trwyddedig yn [sir] [bwrdeistref sirol] i werthu diod feddwol ar y Sul?

TROS agor ar y Sul.....

YN ERBYN agor ar y Sul.....

(b) *Ar gefn y papur pleidleisio*

Rhif.

Pleidlais ar agor adeiladau trwyddedig ar y Sul yn [sir] [bwrdeistref sirol], y ..... dydd o fis 19 .

(**a**) 1967 c. 66. (**b**) 1964 c. 26.

(c) *Cyfarwyddiadau ar gyfer argraffu'r papur pleidleisio*

1. Nid argreffir dim byd ar y papur pleidleisio nad yw'n unol â'r cyfarwyddiadau hyn, a chyn belled ag y mae'n ymarferol—

(*a*) nid argreffir yr un gair ar yr wyneb, heblaw'r hyn a ddarperir yn y ffurflen a roir uchod;

(*b*) nid argreffir unrhyw linell ar yr wyneb heblaw'r llinellau sy'n gwahanu "TROS agor ar y Sul" ac "YN ERBYN agor ar y Sul" a'r gofod cyfatebol a adewir gyferbyn â phob un i gofnodi'r bleidlais.

2. Dylai'r rhif ar gefn y papur pleidleisio gyfateb i'r rhif ar yr wrthddalen, a dylid ei argraffu mewn print mân.

WELSH VERSION OF FORM C, THE FORM OF DIRECTIONS FOR THE GUIDANCE OF VOTERS IN VOTING

C. *Ffurflen rhoi cyfarwyddiadau i bleidleiswyr wrth bleidleisio*

1. Dylai pleidleisiwr wneud yn siŵr fod y papur pleidleisio wedi ei stampio â'r marc swyddogol, cyn ei fod yn ei dderbyn.

2. Eled y pleidleisiwr i un o'r cabanau, a chan ddefnyddio'r pensil sydd yno, doded groes X ar yr ochr dde naill ai yn y gofod gyferbyn â'r geiriau "TROS agor ar y Sul", os yw'n dymuno pleidleisio felly, neu yn y gofod gyferbyn â'r geiriau "YN ERBYN agor ar y Sul" os felly y dymuna bleidleisio.

3. Yna plyged y pleidleisiwr ei bapur fel y bo'r marc swyddogol yn weladwy ar gefn y papur, ac yna deled o'r caban a heb ddangos tu blaen y papur i neb, dangosed y marc swyddogol ar gefn y papur pleidleisio i'r swyddog llywyddu. Ym mhresenoldeb y swyddog doded y papur yn y blwch pleideisiau ac eled heb oedi allan o'r orsaf bleidleisio.

4. Os digwydd i'r pleidleisiwr gam-nodi ei bapur pleidleisio yn ddamweiniol, gall fynd ag e nôl i'r swyddog, ac os bodlonir hwnnw nad trwy fwriad y bu hyn, fe rydd iddo bapur pleidleisio arall.

5. Os gedy pleidleisiwr unrhyw farc ar y papur a fydd ar ôl hynny yn ffordd o'i adnabod, fe ddirymir ei bapur pleidleisio ac ni chaiff ei gyfrif.

6. Os digwydd i bleidleisiwr drwy dwyll fynd â phapur pleidleisio allan o orsaf bleidleisio, neu os digwydd iddo drwy dwyll roi unrhyw bapur yn y blwch pleidleisiau heblaw'r un a estynnwyd iddo gan y swyddog, bydd yn agored, os ceir ef yn euog i'w roi yngharchar am gyfnod heb fod dros chwe mis, neu i ddirwy heb fod dros ugain punt neu i'r carchariad a'r ddirwy honno gyda'i gilydd.

WELSH VERSION OF FORM D, THE FORM OF DECLARATION TO BE MADE BY THE COMPANION OF A BLIND PERSON

D. *Ffurflen datganiad i'w wneud gan gydymaith i bleidleisiwr dall*

Yr wyf fi, A.B., o , oherwydd i mi dderbyn cais i helpu C.D. (*lle bo person dall yn pleidleisio fel dirprwy ychwaneger* "yn pleidleisio fel dirprwy ar ran M.N.") sef rhif yng nghofrestr etholwyr llywodraeth leol [yn rhanbarth etholiadol] [bwrdeistref sirol] [yn ward bwrdeistref

sirol] i roi ei bleidlais yn y bleidlais a gynhelir yn awr o dan Licensing Act 1964 yn y sir [bwrdeistref sirol] uchod, yn datgan yma [fod gennyf hawl i bleidleisio fel etholwr yn y bleidlais hon] [fy mod yn (*myneger y berthynas*) i'r pleidleisiwr uchod ac yn un ar hugain oed] a'm bod heb helpu unrhyw berson dall [heblaw E.F., o] i bleidleisio yn y bleidlais hon.

(Llofnodwyd), A.B.
dydd o fis , 19 .

Yr wyf fi sydd â'm llofnod isod sef swyddog llywyddu yng ngorsaf bleidleisio [rhanbarth etholiadol sir] [ward bwrdeistref [bwrdeistref sirol] sirol] yn tystio yma fod y datganiad uchod wedi ei ddarllen yng nghlyw'r datganwr, a'i fod wedyn wedi rhoi ei enw wrtho yn fy mhresenoldeb.

(Llofnodwyd), G.H.
dydd o fis , 19 .

am munud wedi
(a.m.) (p.m.)

DALIER SYLW—Bydd y sawl a wnêl y datganiad uchod ac a ddywedo anwiredd yn ystyriol ac yn fwriadol ynglŷn ag unrhyw fater o bwys, yn euog o drosedd.

WELSH VERSION OF FORM E, QUESTIONS WHICH MAY BE PUT TO VOTERS

E. *Cwestiynau y gellir eu gofyn i bleidleiswyr*

(*a*) Mewn achos person sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio fel etholwr—

(i) ai chwi yw'r person a gofrestrwyd yng nghofrestr etholwyr llywodraeth leol sydd mewn grym yn awr fel a ganlyn (*darllenwch y cofnod llawn o'r gofrestr*)?

(ii) a ydych eisoes wedi pleidleisio yn y bleidlais a gynhelir yn awr yma neu rywle arall yn [sir] [bwrdeistref sirol] heblaw fel dirprwy ar ran rhyw berson arall?

(*b*) Mewn achos person sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio fel dirprwy—

(i) ai chwi yw'r person sydd â'r enw A.B. ar restr y dirprwyon ar gyfer y bleidlais a gynhelir yn awr ac sydd wedi derbyn yr hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran C.D.?

(ii) a ydych wedi pleidleisio eisoes yn y bleidlais a gynhelir yn awr yma neu rywle arall yn [sir] [bwrdeistref sirol] ar ran C.D.?

EXPLANATORY NOTE

(*This Note is not part of the Order.*)

This Order prescribes the Welsh version of certain forms for use in the Welsh Sunday polls.